## Tasg 2

# Cerddoriaeth o dan y dŵr

Mae'r darn ar y sgrîn yn disgrifio teimladau person o Gapel Celyn, ger y Bala, yn 1965. Roedd rhaid i'r person yma – a llawer o bobl eraill – symud o'r cwm i wneud cronfa ddŵr.

Roedd pentref a ffermydd yn y cwm ac roedd tai, swyddfa'r post, capel ac ysgol yn y pentref. Roedd rhaid i'r bobl bacio a symud.
Pam?
Achos roedd pobl Lerpwl eisiau dŵr.
Roedd llawer o bobl Cymru'n teimlo'n grac iawn.

1. Gwyliwch y clip yma ar YouTube.

   Gwrandewch yn ofalus ar y gerddoriaeth.
   https://www.youtube.com/watch?v=_fkn1KWP8xI

2. Sut ydych chi'n teimlo pan rydych chi'n gwrando ar y gerddoriaeth?

   Siaradwch am hyn mewn grŵp.

3. Pa fath o gerddoriaeth sy'n gwneud i chi deimlo ...

yn drist | yn hapus | yn hyderus | yn dawel | yn fywiog

Mae cerddoriaeth ...
yn gwneud i fi deimlo'n
(hapus).

| Geirfa | |
|---|---|
| darn | piece |
| symud | to move |
| cronfa ddŵr | reservoir |
| cwm | valley |
| ger | near |
| pentref | village |
| fferm, ffermydd | farm, farms |
| pacio | to pack |
| peth, pethau | thing, things |

4. Beth am chwarae darnau gwahanol o gerddoriaeth yn y dosbarth?

Rhaid i chi fynegi barn am y gerddoriaeth gan roi rhesymau.

Rhaid i chi ddweud sut mae'r gerddoriaeth yn gwneud i chi deimlo.